## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 20 Awst 2018 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Alan James a Melvyn Mile

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Gorfodi – Diogelwch Cymunedol (HB) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

**PWYNT HYSBYSU**

Nid oedd Mrs. Vanessa Steele, y Deilydd Trwydded Eiddo a Goruchwylydd Eiddo Dynodedig dros The Galley, Y Rhyl (eitem agenda 3) yn bresennol a gohiriwyd gwrando'r Cais am Adolygiad nes cael cadarnhad am ei chynrychiolaeth. Yn ystod sgwrs dros y ffôn a gafwyd wedyn, cadarnhaodd Mrs. Steele ei bod yn dymuno cael ei chynrychioli yn y gwrandawiad gan Ms. Kayleigh Mannion, aelod o staff y bar ar y safle. Cytunodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i fynd ymlaen ar y sail honno.

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodwyd y Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r holl bartïon i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi cael eu cylchredeg cyn hynny i'r holl bartïon a darparwyd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad personol neu ragfarnus wedi'u codi.

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE GALLEY, 118 VALE ROAD, Y RHYL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a oedd wedi'i gylchredeg cyn hynny) am –

(i) cais a gafwyd gan Heddlu Gogledd Cymru am Adolygiad o Drwydded Eiddo a oedd yn cael ei dal gan Mrs. Vanessa Michelle Steele mewn perthynas â The Galley, 118 Vale Road, Y Rhyl (roedd copi o'r Drwydded Eiddo bresennol a'r atodlen weithredu gyfredol wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad);

(ii) y sail dros adolygu mewn perthynas â'r Amcanion Trwyddedu ar gyfer Atal Troseddu ac Anhrefn a Diogelwch y Cyhoedd sef –

o ganlyniad i'r pryderon sydd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â rheoli'r eiddo trwyddedig. Mae'r Deilydd Trwydded Eiddo (sydd hefyd yn Oruchwylydd Eiddo Dynodedig) wedi methu ag ymgysylltu â'r Heddlu i drafod y pryderon hyn, er bod tystiolaeth glir o ddiffyg dealltwriaeth o'r Amcanion Trwyddedu sydd wedi'u diffinio o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

manylion llawn y cais am Adolygiad sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B i'r adroddiad;

(iii) cyd-fenter a gychwynnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor i ymweld â safleoedd trwyddedig yn ardal y Rhyl i dynnu sylw at y gofynion i safleoedd trwyddedig beidio â gwasanaethu pobl a oedd yn feddw a hefyd i feithrin cefnogaeth i'r cynllun Gwarchod Tafarndai lleol (roedd y cynllun Gwarchod Tafarndai yn gynllun gwirfoddol cenedlaethol a sefydlwyd er mwyn sicrhau amgylchedd diogel o dan arweiniad cyfrifol ar gyfer yfed cymdeithasol ar safleoedd trwyddedig);

(iv) ymweliad â The Galley a gafwyd ar 27 Mai 2018 yn rhan o'r fenter honno pan oedd swyddogion wedi gorfod dioddef iaith fras ac ymddygiad gwrthdrawiadol ac ymosodol gan aelod meddw o blith rheolwyr y safle a barn swyddogion bod y tîm rheoli yn ddirmygus i ryw raddau o'r cynllun Gwarchod Tafarndai ac y byddent yn gwasanaethu pwy bynnag a ddymunent;

(v) llythyr a anfonwyd at y Deilydd Trwydded Eiddo yn ei gwahodd i ddod i gyfarfod i drafod pryderon yr Heddlu a chytuno ar ffordd gefnogol ymlaen a'i hymateb i'r perwyl y byddai'n hysbysu'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol pe byddai'n dymuno ymaelodi â'r cynllun Gwarchod Tafarndai yn y dyfodol;

(vi) bod y Deilydd Trwydded Eiddo hefyd wedi methu â dod i gyfarfod pellach a drefnwyd gan yr Heddlu i drafod pryderon a chytuno ar gyd-ddealltwriaeth o'r gofyniad cyfreithiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach;

(vii) bod y Deilydd Trwydded Eiddo mewn ymateb i'r cais am Adolygiad wedi awgrymu ei bod yn barod i ddod i unrhyw gyfarfodydd o'r cynllun Gwarchod Tafarndai lleol (mae copi o'r ymateb wedi'i atodi yn Atodiad C i'r adroddiad);

(viii) lluniau a ddarparwyd gan yr Heddlu a dynnwyd gan gamera corff yn ystod ymweliad trwyddedu dilynol ar 1 Mehefin 2018 a oedd wedi'u cyflwyno fel tystiolaeth ac wedi'u gwylio gan aelodau cyn y gwrandawiad – roedd y lluniau'n dangos unigolyn ar y safle a oedd wedi'i wahardd o dan y cynllun Gwarchod Tafarndai;

(ix) yr angen i ystyried y cais am Adolygiad gan roi sylw dyladwy i'r Canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Datganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor;

(x) cyfeiriad at brotocol gorfodi ar y cyd Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor a'r broses gorfodi dri cham gyda mecanwaith uwchgyfeirio – bod methiant y Deilydd Trwydded Eiddo i ymgysylltu â'r Heddlu wedi arwain at uwchgyfeirio'r mater yn syth i gam tri,

(xi) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais am Adolygiad.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad ac amlinellu ffeithiau'r achos. Cafwyd bod rhywfaint o ddryswch ymhlith rheolwyr y safle ynghylch pwy oedd y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ac eglurwyd mai Mrs. Vanessa Steele oedd y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig, nid Ms. Kayleigh Mannion. Roedd Mrs. Steele wedi rhoi gwybod am y bwriad i Ms. Mannion ymgeisio i gyflawni'r rôl honno yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chafwyd cais hyd yma.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Roedd y Prif Arolygydd Andrew Williams a Rheolwr Trwyddedu yr Heddlu Aaron Haggas yn bresennol i gefnogi'r Cais am Adolygiad ar ran Heddlu Gogledd Cymru.

Eglurodd Rheolwr Trwyddedu yr Heddlu ei rôl a'i waith gyda'r Heddlu yn ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â phartneriaid a safleoedd trwyddedig a thynnodd sylw at fanteision y dull hwnnw o weithredu i'r holl bartïon. Tynnodd sylw hefyd at y pwysigrwydd o fynd ati i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a sicrhau bod safleoedd trwyddedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn hynny o beth. Er sylweddoli nad oedd angen i'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig fod yn bresennol ar y safle bob amser, roedd yn bwysig bod yr unigolyn hwnnw'n trefnu iddo fod ar gael i drafod pryderon a'i fod yn cymryd rhan.

Darparodd y Prif Arolygydd Andrew Williams rywfaint o wybodaeth am y cyd-destun i'r Cais am Adolygiad yng nghyswllt y gymuned ehangach a buddsoddi i adfywio'r Rhyl ynghyd â mater troseddu cysylltiedig ag alcohol. Adroddodd ar waith a oedd mewn llaw yn ardal y Rhyl i beri i bobl deimlo'n ddiogel gan dynnu sylw at y rôl bwysig sydd gan drwyddedeion yn hynny o beth ac at y cydweithio â nhw i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Cyfeiriodd y Prif Arolygydd at ei gyflwyniadau ac at dystiolaeth a ddarparwyd yn y Cais am Adolygiad a thynnodd sylw at y canlynol –

- tystiolaeth bod staff yn ystyried mai Mr. Steele oedd y trwyddedai, ei ymddygiad tuag at yr Heddlu, a'r elyniaeth a brofwyd gan swyddogion
- yr anwybodaeth lwyr am y Ddeddf Trwyddedu a chyfrifoldeb trwyddedeion yn y cyswllt hwnnw pan holwyd
- y rhaglen o ymweliadau rheolaidd ar y cyd â safleoedd trwyddedig sy'n cael ei gweithredu gan y Cyngor a'r Heddlu i helpu i ymyrryd yn gynnar ac atal problemau a oedd yn cael ei chroesawu gan y rhan fwyaf o safleoedd trwyddedig, ond y farn yn yr achos hwn nad oedd eisiau nac angen sylw gan yr Heddlu gan gyfleu'r awgrym y byddai problemau'n cael eu trafod gan reolwyr y safle yn hytrach na gweithio gyda'r Heddlu i ddatrys anawsterau
- yn ystod yr ymweliad ar 27 Mai 2018, roedd y Deilydd Trwydded Eiddo/Goruchwylydd Eiddo Dynodedig yn eistedd yn y bar ond nid oedd wedi dweud pwy oedd hi na'i chyflwyno ei hun ar unrhyw adeg yn ystod yr holi ac ateb

- roedd dirmyg llwyr tuag at y cynllun Gwarchod Tafarndai; roedd yr Heddlu yn credu bod y cynllun Gwarchod Tafarndai yn fuddiol iawn i atal troseddu ac anhrefn ac, er bod aelodaeth o'r cynllun yn ddewisol, nid felly'r gofyniad i atal troseddu ac anhrefn ac roedd rhwymedigaeth gadarnhaol yn hynny o beth – dadleuwyd bod cau llygad yn fwriadol ar elfennau mewn cymdeithas a'u gwasanaethu'n ddibryder yn anghydnaws â'r gofyniad hwnnw. Nid oedd modd profi dadl rheolwyr y safle nad oedd angen iddynt ymaelodi â'r cynllun Gwarchod Tafarndai ac mai anaml a cafwyd trafferth ar y safle am nad oeddent yn galw'r Heddlu a'u bod yn delio â phroblemau eu hunain
- disgrifiodd yr ymdrechion niferus gan yr Heddlu i ymwneud â'r safle ac adroddodd ar y dirmyg a'r ymatebion a gafwyd mewn perthynas â hynny – er bod cynnig wedi'i wneud i Ms. Mannion ddod i gyfarfod, roedd angen cwrdd yn uniongyrchol â'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig i drafod pryderon a disgwyliadau – gan ddyfynnu'n uniongyrchol o neges e-bost a gafwyd gan Mrs. Vanessa Steele lle rhoddodd wybod "unfortunately I do not have time for the role" nad oedd yn ennyn ymddiriedaeth yn rheolwyr y safle. Er bod bwriad i Ms. Mannion ymgymryd â rôl y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig, nid honno oedd y sefyllfa bresennol
- ailddatganodd fod pryderon oherwydd y math o droseddwyr treisgar a oedd yn cael eu gwasanaethu ar y safle ac adroddodd ar gudd-wybodaeth a gafwyd am ddefnyddio cyffuriau ac yfed a gyrru a fyddai'n destun ymchwilio pellach.

Wrth gloi, cyfeiriodd y Prif Arolygydd at ei awydd i weithio gyda'r safle a sicrhau amgylchedd diogel i gwsmeriaid. Fodd bynnag, oherwydd y difaterwch llwyr ynghylch yr amcan atal troseddu ac anhrefn a'r dirmyg a ddangoswyd mewn perthynas â hynny, teimlai'r Heddlu na ellid bod yn sicr bod person cyfrifol â rheolaeth ar y safle. Felly gofynnodd y Prif Arolygydd am atal y Drwydded Eiddo nes penodi Goruchwylydd Eiddo Dynodedig newydd a darparu sicrwydd ynghylch yr amcanion trwyddedu.

Mewn ymateb i gwestiynau, rhoddodd y Prif Arolygydd wybod –

- nad oedd tystiolaeth o droseddu ac anhrefn ar y safle am nad oeddent yn ymwneud â'r Heddlu o gwbl – roedd atal troseddu ac anhrefn yn ofyniad o dan Ddeddf Trwyddedu 2005 ac roedd tystiolaeth bod rheolwyr yr eiddo yn methu â chyflawni'r amcan trwyddedu hwnnw
- ar wahân i'r gudd-wybodaeth a gafwyd am ddefnyddio cyffuriau ac yfed a gyrru a ddangoswyd yn y cyflwyniad ysgrifenedig, ni chafwyd unrhyw gwynion eraill ond roedd pobl yn amharod ar y cyfan i siarad yn swyddogol â'r Heddlu mewn perthynas â hynny.

**CYNRYCHIOLAETH Y DEILYDD TRWYDDED EIDDO**

Nid oedd Mrs. Vanessa Steele, y Deilydd Trwydded Eiddo a'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig yn bresennol ac roedd wedi penodi Ms. Kayleigh Mannion i'w chynrychioli yn y gwrandawiad. Roedd Ms. Mannion yn aelod o staff y bar a chyda hi roedd Ms. Patricia Wilson a oedd yn gwneud gwaith gweinyddol ar y safle a Ms. Carys Rainford sef y landlord trwyddedig a pherchennog yr eiddo.

Mewn ymateb i'r cyflwyniadau gan yr Heddlu –

- dywedodd Ms. Mannion nad oedd yn bresennol yn ystod ymweliad yr Heddlu ar 27 Mai 2018 ond pan roddodd Mr. Steele wybod nad oedd ef yn gweithio'r noson honno, dylai'r Heddlu fod wedi ymatal rhag trafod ymhellach a siarad yn lle hynny â staff y bar gan y byddai hynny wedi gallu atal ei ymateb. Eglurodd fod Mr. Steele yn gwsmer ar adeg yr ymweliad, nad oedd yn un o'r rheolwyr, a'i fod wedi cynhyrfu. Nododd Ms. Carys Rainford ei bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad ac nad oedd wedi profi unrhyw elyniaeth ac nad oedd yn negyddol tuag at yr heddlu. Ailadroddodd y Prif Arolygydd fod yr Heddlu wedi gofyn am siarad â staff y bar ac mai Mr. Steele a oedd wedi dod at yr Heddlu i siarad â nhw yn lle'r bar. Eglurodd Ms. Mannion fod aelod o staff y bar wedi dweud yn anghywir pan holwyd ef gan yr Heddlu mai Mr. Steele, am mai ef oedd perchennog y busnes, oedd y trwyddedai. Ychwanegodd nad oedd Mr. Steele wedi mentro y tu ôl i'r bar fel y cyfryw yn ystod yr ymweliad hwnnw am nad oedd diodydd yn cael eu gweini o'r man hwnnw a oedd wedi'i ddynodi'n fan clirio/sinc
- derbyniwyd bod unigolion a waharddwyd o dan y cynllun Gwarchod Tafarndai wedi cael eu gwasanaethu ar y safle ond ni fu unrhyw drafferth ar y safle yn ystod y deng mlynedd diwethaf – pe buasai unrhyw drafferth, byddai'r Heddlu wedi cael eu hysbysu ond roedd staff yn gallu rheoli'r cwsmeriaid. Gan nad oedd y safle'n rhan o'r cynllun Gwarchod Tafarndai, roedd y rheini a waharddwyd yn ymwybodol y byddent yn cael eu gwasanaethu ac, ar ôl yfed, byddai tacsis yn cael eu trefnu drwy gwmni tacsis Ms. Rainford i fynd â chwsmeriaid adref fel na fyddent ar y strydoedd yn achosi trafferth
- cadarnhawyd bod Mrs. Steele yn gweithio yn ystod y dydd ac nad oedd ar gael ar y safle heblaw yn ystod y nosweithiau neu ar benwythnosau
- hyd yr oeddent yn gwybod, nid oedd yr Heddlu wedi bod ar y safle i ganfod a oedd cyffuriau'n cael eu defnyddio neu i ymchwilio i unrhyw honiadau am yfed a gyrru
- darparodd Ms. Rainford fanylion am y defnydd helaeth o deledu cylch cyfyng yng nghyffiniau'r safle i ddiogelu ei heiddo gan roi gwybod ei bod yn cydweithredu'n llawn â'r Heddlu os gofynnid am luniau a bod atal troseddu ac anhrefn yn cael ei gymryd o ddifrif – roedd hi'n cwrdd â Mrs. Steele yn rheolaidd ac nid oedd yn gwybod am unrhyw broblemau o ran troseddu ac anhrefn, yn enwedig yng nghyswllt diogelwch eiddo – yn ei barn hi roedd y safle'n cael ei redeg mewn ffordd broffesiynol a phriodol
- rhoddodd Ms. Wilson wybod, yng nghyswllt troseddu ac anhrefn, fod yr ardal yn arfer bod yn un brysur ond ar hyn o bryd The Galley oedd yr unig dafarn a oedd yn agored – roedd ganddynt gwsmeriaid hirsefydlog a fu'n yfed ar y safle ers cenedlaethau, yn cynnwys yr henoed, a oedd yn dangos nad oedd ofn troseddu; ar benwythnosau byddai teuluoedd yn mynychu'r safle ac roedd hi'n ystyried bod y safle'n gyfeillgar â theuluoedd. Nid oedd tystiolaeth o droseddu ac er bod ambell anghytundeb nid oedd byth unrhyw dwrw difrifol neu faterion a oedd yn peri pryder ar y safle.

Mewn ymateb i gwestiynau, hysbyswyd aelodau –

- bod cwsmeriaid a waharddwyd o dan y cynllun Gwarchod Tafarndai wedi bod yn gwsmeriaid ers cenedlaethau – nid penderfyniad busnes yn unig oedd eu gwasanaethu

- roedd wedi bod yn anodd i Mrs. Steele gwrdd â'r Heddlu oherwydd ymrwymiadau gwaith ond derbyniwyd y dylai fod wedi gwneud trefniadau i gwrdd â'r Heddlu pan oedd ar gael y tu allan i oriau gwaith
- mai eu barn nhw oedd, am nad oedd troseddu ac anhrefn ar y safle, nad oedd angen ymgysylltu â'r Heddlu
- na chafwyd mewnbwn gan yr Heddlu ers 2010 a bod y safle'n cael ei reoli a'i redeg yn effeithiol.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Yn ei ddatganiad terfynol, ailddatganodd y Prif Arolygydd Andrew Williams y byddai'n falch o gael sgwrs â Mrs. Steele – roedd wedi cynnig cwrdd ar nifer mawr o achlysuron gan nodi hefyd ei fod yn barod i gwrdd ar yr amser mwyaf cyfleus iddi hi. Roedd Mrs. Steele wedi rhoi gwybod nad oedd ganddi amser i redeg y safle ac nad oedd neb cyfrifol â rheolaeth arno ar hyn o bryd. Roedd y rheolwyr yn rheoli'r safle eu hunain heb gynnwys yr Heddlu, gan wasanaethu'r rheini a waharddwyd o dan y cynllun Gwarchod Tafarndai fel bod nifer o unigolion treisgar yn dod at ei gilydd. Ymatebodd y Prif Arolygydd ymhellach i sylwadau blaenorol a wnaed i'r perwyl na ddylai fod wedi parhau â'i sgwrs â Mr. Steele ar 27 Mai 2018 drwy roi gwybod iddo ddweud wrth Mr. Steele nad oedd mewn cyflwr addas i siarad ag ef ond ei fod ef wedi mynnu parhau â'r sgwrs. Ymatebodd hefyd drwy ddweud, os nad penderfyniad busnes oedd gwasanaethu cwsmeriaid a waharddwyd o dan y cynllun Gwarchod Tafarndai – na fyddai rheswm arall i barhau i wneud hynny – byddai gyrru allan yr elfennau drwg yn cynyddu gwerthiant y bar ac yn rhoi enw gwell i'r safle.

**YMNEILLTUO I YSTYRIED Y CAIS**

Yn y fan hon (11.40 a.m.) ymneilltuodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *diswyddo'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig, a*

*(b)* *atal y Drwydded Eiddo am gyfnod o dri mis neu am gyfnod byrrach y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ei nodi i'r awdurdod trwyddedu pan fydd wedi'i fodloni bod rheolwyr y safle yn cydymffurfio â'r amcanion trwyddedu a'u bod yn barod i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â Heddlu Gogledd Cymru.*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i'r partïon a oedd yn bresennol ac adroddodd y Cyfreithiwr ar y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Clywodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yr holl gyflwyniadau mewn perthynas â'r cais am Adolygiad o'r Drwydded Eiddo i The Galley a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd y Prif Arolygydd wedi rhoi disgrifiad hir a manwl o ymdrechion a gafwyd i ymgysylltu â'r safle a'i fethiant i gwrdd â Mrs. Vanessa Steele (y Deilydd Trwydded

Eiddo a'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig), er gwaethaf yr ymdrechion hynny. Roedd Mrs. Steele wedi cyfaddef ei hun nad oedd ganddi amser i ymwneud â rhedeg y busnes.

Roedd Mrs. Steele wedi methu â dod i wrandawiad y cais am Adolygiad ac yn lle hynny wedi penodi Ms. Kayleigh Mannion i'w chynrychioli. Roedd yna gred mai Ms. Mannion oedd y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ar y safle. Roedd hwn yn gamsyniad a oedd wedi'i ddal am gryn amser. Nid oedd cais wedi'i wneud ar ran y busnes i newid y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ar yr adeg hon ac nid oedd yn hysbys a fyddai Ms. Kayleigh Mannion yn Oruchwylydd Eiddo Dynodedig addas. Nid oedd gohebiaeth rhwng Mrs. Steele ac unrhyw un arall ar y safle mewn perthynas â'i hymddiswyddo fel Goruchwylydd Eiddo Dynodedig a phenodi rhywun arall yn ei lle.

Roedd y cyflwyniadau gan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos bod amharodrwydd llwyr ar ran y tîm rheoli i ymgysylltu â'r Heddlu. Er derbyn nad oedd cofnod manwl am droseddu ac anhrefn ar y safle, roedd yn ymddangos mai prif ethos y busnes, yn ôl y cyflwyniadau gan Ms. Kayleigh Mannion a Ms. Carys Rainford, oedd y byddent yn parhau i ddelio â phroblemau eu hunain yn hytrach na thrafod sut y gallent atal troseddu ac anhrefn ar eu safle. Roedd hefyd yn ymddangos bod yr amharodrwydd i ymgysylltu â'r Heddlu, hyd yn oed mewn sefyllfa ataliol, yn mynd ymhellach na Mrs. Steele a'i fod yn cynnwys pobl eraill a oedd yn ymwneud i ryw raddau neu'i gilydd â rhedeg y safle. Roedd rhyw elyniaeth tuag at ymgysylltu o'r fath am resymau nad oeddent yn eglur o'r gwrandawiad ei hun.

Ychydig o hyder a oedd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn rheolwyr presennol y safle. Oherwydd hynny, ni allai fod yn hyderus bod pwy bynnag a oedd yn rhedeg y safle mewn gwirionedd yn cefnogi'r amcanion trwyddedu. O ganlyniad i hynny, penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu ddiswyddo Mrs. Vanessa Steele fel Goruchwylydd Eiddo Dynodedig. Yn ogystal â hynny, penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu atal y Drwydded Eiddo am gyfnod o dri mis neu am gyfnod byrrach y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ei nodi i'r awdurdod trwyddedu pan fydd wedi'i fodloni bod rheolwyr y safle yn cydymffurfio â'r amcanion trwyddedu a'u bod yn barod i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â Heddlu Gogledd Cymru.

Hysbyswyd yr holl bartïon am yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hunain.

## 4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – 39 STRYD Y FFYNNON, RHUTHUN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a oedd wedi'i gylchredeg cyn hynny) am –

(i) cais a gafwyd gan Richard John Green am Drwydded Eiddo newydd mewn perthynas â 39 Stryd y Ffynnon, Rhuthun yn cynnig ei weithredu fel micro-dafarn a fydd yn gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle;

(ii) cais gan yr ymgeisydd am awdurdodiad i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol –

| GWEITHGARWCH TRWYDDEDADWY | DYDDIAU CYMWYS | AMSER: O | AMSER: I |
|---|---|---|---|
| Cyflenwi Alcohol (i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle) | Dydd Llun – Dydd Sul | 12:00 | 22:00 |
| Oriau y byddai'r safle yn agored i'r cyhoedd | Dydd Llun – Dydd Sul | 12.00 | 22.00 |

(iii) pedwar sylw ysgrifenedig (Atodiad B i'r adroddiad) a gafwyd mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus mewn perthynas ag aflonyddu posibl gan sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

(iv) sylwadau a gyflwynwyd gan Adain Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor (Atodiad C i'r adroddiad) sy'n ymwneud â'r ffaith bod y safle yn agos iawn i eiddo preswyl ac yn cynnig nifer o amodau (y mae'r Ceisydd wedi cytuno arnynt) i'w gosod os rhoddir y drwydded i helpu i atal niwsans cyhoeddus;

(v) sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru am y cais a nifer o amodau a gynigiwyd ganddo (y mae'r Ceisydd wedi cytuno arnynt) i'w gosod os rhoddir y drwydded er mwyn hyrwyddo'r amcan trwyddedu ar gyfer atal troseddu ac anhrefn (Atodiad D i'r adroddiad);

(vi) ymateb ysgrifenedig a ddarparwyd hefyd gan yr ymgeisydd i bryderon preswylwyr (Atodiad E i'r adroddiad) a'r ffaith ei fod wedi nodi ei fod yn barod i gyfryngu â'r Partïon Cysylltiedig – er hynny, roedd rhai gwrthwynebwyr wedi nodi ei bod yn well ganddynt i'r mater gael ei ddwyn gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu;

(vii) yr angen i ystyried y cais gan roi sylw dyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor; Canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a gafwyd;

(viii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad ac amlinellu ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr ymgeisydd, Mr. Richard Green yn bresennol i gefnogi ei gais ynghyd â'i wraig, Mrs. S. Green a'i bartner busnes Mr. D. McPherson. Rhoddodd Mrs. Green grynodeb o'r cais am ficro-dafarn gan ofyn am oriau a ganiateir rhwng 12 hanner dydd a 10.00 p.m. ond rhoddodd wybod mai'r oriau agor arferol fyddai rhwng 3.00 p.m. a 10.00 p.m. ar wahân i ddydd Sadwrn. Ni fyddai'r busnes yn agored ar ddydd Llun fel arfer oni bai ei fod yn ŵyl banc.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau –

- darparodd Mr. Green wybodaeth gefndir am y cynnig busnes gan gynnwys ei brofiad yn y diwydiant bragu a micro-dafarnau a agorwyd yn ddiweddar yn y

Rhyl a Phrestatyn a oedd yn gweithredu o dan amodau trwyddedu tebyg; rhoddodd sicrwydd hefyd ynghylch cydymffurfio â’r amodau arfaethedig

- rhoddodd Mr. McPherson wybodaeth gefndir hefyd am y rhan y bydd yn ei chwarae a’i brofiad yn y diwydiant bragu ac ymhelaethodd ar gynlluniau partneriaeth â Mr. Green ar gyfer y ficro-dafarn arfaethedig yn Rhuthun
- rhoddwyd sicrwydd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau mewn bod mewn unrhyw un o’r micro-dafarnau a weithredir gan yr ymgeisydd lle mae’r Heddlu wedi’u galw ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am wrthod gwasanaethu; roedd teledu cylch cyfyng ar waith hefyd
- darparwyd manylion am hyfforddiant staff, yn cynnwys gofynion o ran ymsefydlu a pholisi, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi yng nghyswllt trwyddedu a rheoli fel y bo’n briodol; roedd y rhanddeiliaid yn ymwneud â hyn yn uniongyrchol
- cyfeiriwyd at y farchnad arfaethedig gyda nodweddion demograffig a oedd yn cynnwys y ddau ryw ac ystod oedran rhwng 30 a 65; roedd cynhyrchion o ansawdd da yn cael eu gwerthu am brisiau uwch na’r cystadleuwyr am fod y cynhyrchion wedi’u gwneud gan grefftwyr; byddai amgylchedd diogel a chroesawgar yn cael ei greu i alluogi unigolion i gymdeithasu, a byddai nifer mawr o bobl wedi ymddeol yn galw heibio rhwng 6.00 p.m. a 8.00 p.m. i’r diben hwnnw. Ni fyddai bwyd yn cael ei weini ar y safle ond byddai byrbrydau fel creision ar gael yn y bar
- cadarnhawyd bod y micro-dafarnau yn y Rhyl a Phrestatyn yn agos i eiddo preswyl. Roedd y safle yn y Rhyl mewn rhes o siopau gyda fflatiau preswyl uwch eu pen ac ystad o dai preswyl yn agos, ac roedd y safle ym Mhrestatyn gyferbyn â chyfadeilad i bobl wedi ymddeol.

**CYFLWYNIAD GAN ADAIN IECHYD YR AMGYLCHEDD**

Cyfeiriodd Mr. Sean Awbery o Adain Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor at ei sylwadau ysgrifenedig (Atodiad C i’r adroddiad) yn cynnig gosod nifer o amodau ar y drwydded, os rhoddir hi, er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr amodau wedi’u cytuno â’r Ceisydd.

**CYFLWYNIAD GAN HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Nododd aelodau ei sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a oedd wedi’u cytuno rhwng yr ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ymhellach (wedi’u hatgynhyrchu yn Atodiad D i’r adroddiad). Roedd yr Heddlu wedi gofyn os oedd aelodau o blaid caniatáu’r cais eu bod yn ystyried cynnwys yr amodau hynny yn yr Atodlen Gweithredu.

**CYFLWYNIADAU GAN BARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Roedd pedwar sylw ysgrifenedig wedi dod i law (Atodiad B i’r adroddiad) oddi wrth bartïon cysylltiedig a oedd yn disgrifio pryderon sy’n ymwneud â’r amcanion trwyddedu. Roedd y partïon cysylltiedig hynny a oedd yn y gwrandawiad yn cynnwys (1) Mr. G. Price a Mrs. S. Price, a (2) Mr. J. Brimble a Mrs. C. Brimble – pob un ohonynt yn breswylydd yn Stryd y Ffynnon, Rhuthun. Etholwyd Mrs. S. Price yn llefarydd ar ran y rheini a oedd yn bresennol.

Cyfeiriodd Mrs. S. Price at y sylwadau ysgrifenedig a phryderon preswylwyr a oedd yn ymwneud yn bennaf â niwsans sŵn, y risg o fwg ail-law, llygredd golau ac arogleuon afiach. Mewn ymateb tynnodd Mrs. Green sylw at yr ymateb ysgrifenedig cynhwysfawr i bryderon preswylwyr (Atodiad E i'r adroddiad) a oedd yn nodi sut byddai'r materion hynny'n cael eu trafod a'u lliniaru. Mewn ymateb i gwestiynau pellach a godwyd gan Mrs. Price roedd yr ymgeisydd a'i gynrychiolwyr –

- wedi cydnabod pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai cwsmeriaid yn ysmygu y tu allan i'r safle yn union o dan ffenestri preswylwyr ond wedi rhoi gwybod bod profiad blaenorol wedi dangos mai ychydig o ysmygwyr a oedd yn cael eu denu i'r ficro-dafarn ac y byddai unrhyw fwg yn teneuo wrth iddo godi – ni fyddai cwsmeriaid yn cael eu hannog i ysmygu y tu allan i'r safle nac yn cael caniatâd i fynd â diodydd allan i'r diben hwnnw; byddai arwyddion hefyd yn cael eu gosod ger y drws i anghymell yr arfer honno ac roedd yr ymgeisydd yn barod i ganfod a oedd yn ymarferol gosod ffan/echdynnwr wrth y drws ffrynt i ymateb ymhellach i bryderon
- wedi rhoi gwybod y byddai modd defnyddio rhan o'r lle y tu mewn i gefn y safle i storio gwastraff ac mai dim ond ar ôl hanner dydd y byddai llwytho a dadlwytho yn cael eu caniatáu pan fyddai'r safle'n cael ei agor i ganiatáu mynediad
- wedi rhoi sicrwydd ynghylch sŵn gan gadarnhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i gymryd peiriannydd sŵn ymlaen i gynnal arolwg o'r safle er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion, fel un i osod rhwystr sŵn acwstig, i ymateb i bryderon ynghylch sŵn; o ran sŵn cyffredinol gan gwsmeriaid y tu allan i'r safle, byddai hysbysiadau clir yn cael eu dangos yn gofyn i gwsmeriaid barchu preswylwyr lleol ac ymadael yn ddistaw
- wedi ailddatgan y byddai oriau agor y safle yn gyfyngedig, fel arfer rhwng 3.00 p.m. neu 4.00 p.m. a hyd at 10.00 p.m. gyda phymtheg munud i orffen yfed.

Gyda chydsyniad y Cadeirydd, anerchodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr Is-bwyllgor ac adrodd ar nifer o negeseuon yr oedd wedi'u cael gan breswylwyr yn codi pryderon tebyg mewn perthynas â'r cais a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o sŵn/aflonyddu; anawsterau parcio (yn cynnwys dadlwytho cyflenwadau); ymddygiad afreolus yn gysylltiedig ag yfed; ysmygu goddefol, a'r posibilrwydd o gerddoriaeth fyw. Er bod cymysgedd cyfeillgar o fusnesau a phreswylwyr ar hyn o bryd, roedd pryderon am golli cydbwysedd pe byddai trwydded yn cael ei rhoi. Er gwerthfawrogi'r amodau lliniaru a awgrymwyd i ymateb i bryderon (Atodiadau C a D i'r adroddiad) ac ymateb manwl yr ymgeisydd i'r pryderon a godwyd (Atodiad E i'r adroddiad), roedd preswylwyr yn pryderu o hyd na chydymffurfir â'r amodau hynny neu na fyddant yn ymateb yn llawn i'r holl bryderon a godwyd. Yn gyffredinol roedd micro-dafarn yn cael ei hystyried yn fenter ragorol ond holwyd a oedd y lleoliad yn briodol i gychwyn menter o'r fath o ystyried y pryderon a godwyd. Ychwanegodd Mr. J. Brimble fod lleoliadau mwy addas yn yr ardal ar gyfer micro-dafarn, gan ailddatgan ei bryderon, yn cynnwys ysmygu goddefol, a holodd a oedd polisi ysmygu wedi'i fabwysiadu. Atebodd Mr. Sean Awbery nad oedd polisi ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus hyd yr oedd yn gwybod. Roedd Mr. G. Price hefyd wedi ailddatgan ei bryderon ynghylch effaith sŵn ac ar ei fod yn gwerthfawrogi bod tafarn a siop cebabau yn bellach ar hyd y ffordd, nid oedd y busnesau hynny yn union o dan ei annedd.

Holodd y Cadeirydd Mr. Sean Awbery o Adain Iechyd yr Amgylchedd am fater niwsans sŵn. Cafwyd cadarnhad ganddo fod cais wedi'i wneud am asesiad sŵn yn rhan o broses y cais cynllunio i roi prawf ar allu'r adeiladwaith i atal sŵn rhag dianc a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddarparu unrhyw welliannau yn ôl yr angen a all fod yn rhan o unrhyw amod cynllunio yn y dyfodol. Eglurodd Mrs. Green, mewn perthynas â cherddoriaeth, fod y micro-dafarnau yn y Rhyl a Phrestatyn yn cynnal noson o gerddoriaeth acwstig ar ddydd Mercher neu ddydd Sul a oedd yn para tua 1 – 1.5 awr rhwng 7.00 p.m. ac 8.30 p.m. – nid oedd cerddoriaeth electronig yn cael ei chwarae. Ychwanegodd Mr. McPherson fod y mudiad micro-dafarnau yn ymwneud yn fwy â chrefft sgwrsio.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol, ailddatganodd Mrs. Green eu bod yn rhedeg busnes cyfrifol a rhoddodd sicrwydd y byddai pob pryder yn cael ei ystyried a bod croeso i ymgynghori llawn. Estynnodd wahoddiad hefyd i breswylwyr i weld sut roedd eu micro-dafarnau eraill yn cael eu rhedeg er mwyn rhoi mwy o dawelwch meddwl a lliniaru pryderon a godwyd. Eglurwyd y rhesymu ynghylch dewis y lleoliad i'r busnes yn Stryd y Ffynnon yng nghyswllt demograffeg a'r dewis da o fannau manwerthu a mannau cyffelyb. Roedd yr amodau a gynigiwyd gan yr Heddlu ac Adain Iechyd yr Amgylchedd wedi'u derbyn a byddai unrhyw argymhellion a oedd yn codi o'r asesiad sŵn (a gynhelir yn rhan o broses y cais cynllunio) yn cael eu gweithredu os oeddent yn ddichonol yn ariannol.

**YMNEILLTUO I YSTYRIED Y CAIS**

Yn y fan hon (1.00 p.m.) ymneilltuodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *rhoi Trwydded Eiddo (fel y ceisiwyd amdani), yn ddarostyngedig i'r amodau sydd wedi'u dangos isod ar gyfer y canlynol –*

| ***GWEITHGARWCH TRWYDDEDADWY*** | ***DIWRNODAU CYMWYS*** | ***ORIAU*** |
|---|---|---|
| *Cyflenwi alcohol (i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle)* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *12.00 – 22:00* |
| *Oriau agor y safle i'r cyhoedd* | *Dydd Llun – Dydd Sul* | *12.00 – 22:00* |

***AMODAU***

***Fel y'u cynigiwyd gan Heddlu Gogledd Cymru –***

*Atal Troseddu ac Anhrefn*

1) ***Teledu Cylch Cyfyng***

   a) *Gosodir system teledu cylch cyfyng ar y safle a bydd ar waith bob amser pan fydd y safle yn agored.*

b) *Bydd camerâu'r system teledu cylch cyfyng yn monitro tu mewn a thu allan y safle. Ar gyfer tu mewn y safle, gosodir digon o gamerâu i fonitro'r holl fannau y bydd y cyhoedd yn cael mynediad iddynt, ac eithrio'r toiledau. Rhaid monitro'r holl fynedfeydd ac allanfeydd a rhaid darparu llun clir o'r pen a'r ysgwyddau.*
c) *Bydd y system teledu cylch cyfyng o safon sydd â'r gallu i ddarparu lluniau o ansawdd tystiolaeth ac i adnabod wynebau ym mhob math o olau.*
d) *Bydd cyfleuster yn y system teledu cylch cyfyng i recordio'r lluniau o bob un o'r camerâu a chedwir y lluniau hyn am 28 o ddiwrnodau o leiaf.*
e) *Bydd cyfleuster yn y system teledu cylch cyfyng i gynnwys y dyddiad ac amser cywir yn y lluniau a recordir.*
f) *Bydd cyfleuster yn y system teledu cylch cyfyng i lawrlwytho lluniau i ryw fath o ddyfais symudol. Cyfrifoldeb deilydd y drwydded eiddo yw darparu'r ddyfais symudol ac os atafaelir dyfais symudol, yna cyfrifoldeb deilydd y drwydded eiddo fydd sicrhau bod dyfais symudol ychwanegol ar gael.*
g) *Trefnir i luniau fod ar gael o'r system teledu cylch cyfyng i swyddogion yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol ar eu cais.*
h) *Bydd o leiaf un aelod staff a hyfforddwyd i ddefnyddio'r system teledu cylch cyfyng ac sy'n gallu darparu lluniau a recordiwyd o'r system teledu cylch cyfyng ar ddyletswydd bob amser pan yw'r safle yn agored.*
i) *Rhaid i'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig sicrhau bod y system teledu cylch cyfyng yn cael ei gwirio ar ddechrau busnes bob diwrnod i sicrhau ei bod yn gweithio – rhoddir sylw ar unwaith i unrhyw ddiffygion yn y system. Wrth wneud y gwiriad hwn, rhaid cynnwys gweithrediad y camerâu, y cyfleusterau recordio, cyfleusterau ar gyfer darparu lluniau a chywirdeb yr amser a'r dyddiad. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r gwiriadau hyn, yn cynnwys llofnod y person sy'n cyflawni'r gwiriad. Rhaid cadw'r cofnod ysgrifenedig hwn ar y safle bob amser a'i ddarparu i gynrychiolydd unrhyw awdurdod cyfrifol ar ei gais.*

2) ***CYN** iddynt gael caniatâd i werthu alcohol, bydd yr holl staff sydd heb drwydded bersonol, yn cynnwys unrhyw aelodau staff di-dâl, aelodau o'r teulu a phersonau a all ymwneud yn achlysurol â gwerthu alcohol ar y safle, yn cael eu hyfforddi ar eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddf honno a wneir wedyn – yn benodol, byddant yn cael eu hyfforddi mewn perthynas â gweini alcohol i bersonau sy'n feddw.*

3) *Bydd cofnodion o'r hyfforddiant cychwynnol a dderbynnir a hyfforddiant diweddaru dilynol yn cael eu cadw a'u dangos i swyddogion yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol ar eu cais.*

4) *Llyfr Digwyddiadau a Gwrthodiadau – rhaid cadw llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau (a'r tudalennau wedi'u rhifo'n olynol) ar y safle a threfnu iddo fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol. Rhaid cofnodi'r canlynol yn y llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau:*

a) *Unrhyw ddigwyddiad o drais neu anhrefn ar y safle neu'n union y tu allan iddo.*
b) *Unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau (cyflenwi/meddu arnynt/dylanwadu) ar y safle.*

*c) Unrhyw drosedd neu weithgarwch troseddol arall ar y safle.*
*d) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i bersonau sy'n feddw.*
*e) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i rai dan 18 oed neu unrhyw un sy'n ymddangos ei fod o dan 18 oed.*
*f) Unrhyw alwad i'r heddlu neu'r gwasanaeth ambiwlans neu wasanaeth tân am gymorth ar y safle.*
*g) Unrhyw droi allan o'r safle.*
*h) Unrhyw gymorth cyntaf/math arall o ofal a roddwyd i gwsmer.*

*5) Rhaid cofnodi'r manylion canlynol yn y llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau:*

*a) Amser, diwrnod a dyddiad y digwyddiad neu wrthodiad*
*b) Y person sy'n cofnodi*
*c) Enw tyst ar y staff*
*d) Enw a chyfeiriad y cwsmer (os rhoddwyd)*
*e) Disgrifiad o'r cwsmer*
*f) Y rheswm am wrthod neu natur y digwyddiad*
*g) A alwyd yr heddlu neu'r gwasanaeth ambiwlans neu wasanaeth tân*

*6) Rhaid trefnu i'r llyfr digwyddiadau a gwrthodiadau fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol ar eu cais. Gellir cofnodi'r wybodaeth yn electronig hefyd ar system seiliedig ar dil neu system debyg.*

*Amddiffyn Plant rhag Niwed*

*1) Y polisi gwirio oed a ddefnyddir ar y safle fydd Challenge 25*

*2) Bydd yr holl staff, yn cynnwys unrhyw aelodau staff di-dâl, aelodau o'r teulu a phersonau sy'n ymwneud â gwerthu alcohol yn achlysurol yn cael eu hyfforddi ar y polisi Challenge 25 CYN cael caniatâd i werthu alcohol a byddant yn dilyn hyfforddiant diweddaru bob chwe mis o leiaf.*

*3) Cedwir cofnodion o'r hyfforddiant Challenge 25 a threfnir iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol ar eu cais.*

*4) Ni chaniateir i blant (dan 18 mlwydd oed) fod ar y safle oni bai fod oedolyn gyda nhw bob amser.*

*5) Ni chaniateir i blant (dan 18 mlwydd oed) fod ar y safle ar ôl 19.00 awr.*

***Fel y'u cynigiwyd gan Adain Rheoli Llygredd y Cyngor –***

*1) Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth fyw/wedi'i recordio y tu allan*

*2) Ni chaniateir gosod cynwysyddion o unrhyw fath y tu allan i'r safle rhwng 09.00 awr a 21.00 awr er mwyn lleihau aflonyddu ar eiddo gerllaw*

3) *Rhaid dangos hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion preswylwyr lleol ac ymadael â'r safle a'r ardal yn ddistaw*

4) *Ni fydd unrhyw oleuadau fflachio neu oleuadau llachar yn cael eu gosod ar y safle neu y tu allan iddo a rhaid i unrhyw oleuadau diogelwch neu fynediad gael eu gosod a'u gweithredu fel na fyddant yn achosi niwsans i eiddo gerllaw*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i'r partïon a oedd yn bresennol ac adroddodd y Cyfreithiwr ar y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Roedd aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus.

Roedd y Ceiswyr wedi cydnabod y pryderon a godwyd gan breswylwyr ac wedi nodi eu bod yn barod i weithio gyda phreswylwyr i leddfu'r pryderon hynny ymhellach a'u bod yn croesawu'r cyfle hwnnw. Cafwyd rhywfaint o sicrwydd bod modd delio â'r pryderon am sŵn a byddai arolwg yn cael ei gynnal i ganfod pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i atal niwsans sŵn. Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi'i argyhoeddi y byddai lefelau gormodol o aflonyddwch sŵn yn dod o'r safle gan mai ethos y busnes oedd ceisio apelio at gwsmeriaid mwy aeddfed a oedd yn cael eu denu gan y cwrwau crefft a'r sgwrs yn hytrach na gweithgareddau mwy nodweddiadol o dafarndai.

Byddai'r Ceiswyr hefyd yn cymryd mesurau i leihau effaith unrhyw niwsans mwg ar y preswylwyr yn yr ardal. Ni fyddai'n cael ei hybu fel gweithgarwch a oedd yn rhan o'r busnes gan mai nifer bach o ysmygwyr a oedd yn cael eu denu fel arfer. Roedd y Ceiswyr hefyd wedi rhoi gwybod y byddent yn ystyried cymryd mesurau atal pellach ac roeddent yn barod i gymryd cyngor ynghylch sut i leihau niwsans yn y cyswllt hwnnw.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cefnogi'r awgrym i breswylwyr ymweld â safleoedd tebyg eraill sy'n cael eu rhedeg gan y Ceiswyr i leddfu unrhyw ofnau sydd ganddynt am y busnes a'i weithrediad. Roedd aelodau hefyd yn croesawu'r ffordd agored a thryloyw yr oedd y Ceiswyr wedi ymateb i bryderon y preswylwyr a'u parodrwydd i gydweithio, ac roeddent yn annog y preswylwyr i barhau â deialog o'r math hwn â'r Ceiswyr.

Hysbyswyd y Partïon Cysylltiedig am yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hunain. Sicrhawyd y preswylwyr hefyd y byddent yn gallu dod â'r mater yn ôl ar gyfer Adolygiad wedi i'r safle ddechrau gweithredu os nad oedd y busnes yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded neu'r amcanion trwyddedu.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.